

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl Cross-party Group on Mental Health

Cofnodion y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl

17 Mai 2022

12.00 – 13.00

Rhithwir - Teams

Yn bresennol:

| | |
|--------------------|---|
| Ken Skates AS | Cadeirydd |
| Simon Jones | Mind Cymru (ysgrifenyddiaeth) |
| June Jones | Amser i Newid Cymru |
| Peter Williams | Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru |
| Madelaine Phillips | Confederasiwn GIG Cymru |
| Gwyneth Sweatman | Ffederasiwn Busnesau Bach Cymru |
| Lesley Richards | Sefydliad Siartredig Personel a Datblygu Cymru (CIPD) |
| Rachel Suff | Sefydliad Siartredig Personel a Datblygu Cymru (CIPD) |
| Linsey Imms | TUC Cymru |
| Sarah Thomas | Sefydliad y Merched Cymru |
| Cathy Bevan | Swyddfa Huw Irranca Davies AS |
| David Lee | Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru |
| Geroge Watkins | Mind Cymru |
| Harry Ridgewell | Yr Ymddiriedolaeth Ffibrosis Systig |
| Jonathan Davies | Cymdeithas y Cyfreithwyr |
| Glenn Page | Mind Cymru |
| Rachel Lewis | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Sarah Hatherley | Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau |
| Liz Williams | RNIB Cymru |
| Ffion Edge | Adferiad |
| James Radcliffe | Platfform |
| Heledd Roberts | Swyddfa Rhun Ap Iorwerth AS |
| Daisy Noott | Coleg Brenhinol y Seiciatryddion |
| Mary-Ann McKibben | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Richard Jones | Mental Health Matters Wales |
| Emma Gooding | Y Samariaid Cymru |

1. Croeso a chyflwyniadau

Cyflwynodd Ken Skates (KS) y pwnc trafod, sef iechyd meddwl yn y gweithle, drwy ddweud bod angen i bobl deimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu cefnogi yn eu gweithleoedd. Roedd Contract

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl Cross-party Group on Mental Health

Economaidd Llywodraeth Cymru yn rhoi iechyd meddwl wrth wraidd strategaeth economaidd ac yn darparu llwyfan i adeiladu arno. Cyflwynodd KS y rhai a fyddai'n cyflwyno adroddiadau

2. Gwyneth Sweatman, Pennaeth y Cyfryngau a Chyfathrebu, Ffederasiwn y Busnesau Bach



GS VF FSB Wales
Business without Ba

3. Rachel Suff, Uwch-gynghorydd Polisi, Sefydliad Siartredig Personél a Datblygu (CIPD)



CPG 17 May 22 R
Suff CIPD.pptx

4. Linsey Imms, Swyddog Cefnogi a Dysgu'r Undeb, TUC Cymru



MH CPG 17.05.22
FINAL.pptx

5. Trafodaeth

Tynnodd James Radcliffe (Platfform) sylw at gyflogwyr sy'n gofyn i bobl ddod i'r gwaith pan mae ganddynt Covid neu os ydynt yn sâl. Dyma gyfle euraidd i ddiwygio absenoldeb oherwydd salwch, gan fod ynysu wedi dod i ben. Sut y gall y gweithle ddod yn lle seicolegol ddiogel i bobl fod? Sut y gallwn ni gryfhau'r negeseuon hyn i gyflogwyr?

Awgrymodd KS ysgrifennu at Vaughan Gething ac, o bosibl, ei wahodd i gyfarfod yn y dyfodol hefyd.

Tynnodd June Jones (Amser i Newid Cymru) sylw at addewid cyflogwr Amser i Newid Cymru fel cam cyntaf tuag at annog sefydliadau i gymryd y cam cyntaf. Mae llawer o staff yn parhau i deimlo'n anghyfforddus o ran bod yn agored gyda'u rheolwyr

Roedd Richard Jones (Mental Health Matters Wales), wedi bod yn darparu cyrsiau hyfforddi iechyd meddwl am ddim yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, wedi eu hariannu gan Lywodraeth Cymru. Ychydig iawn o'r sector preifat a fanteisiodd ar yr hyfforddiant. Mae angen i ystod ehangach o sefydliadau wthio'r cynnig a'r cyfle hwn, e.e. drwy'r TUC, Sefydliad Siartredig Personel a Datblygu

KS Dylai Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl fod ar waith o ran cael cyllid gan Lywodraeth Cymru

Liz Williams (RNIB) mae cyflogaeth yn ffactor sydd wedi'i ddiogelu ar gyfer iechyd meddwl. Gall pobl ddall neu rannol ddall gael eu heithrio o gyfleoedd gwaith neu gyfleoedd datblygu ac mae hyn yn effeithio ar eu hiechyd meddwl.

Gwyneth Sweatman (Ffederasiwn y Busnesau Bach), pwynt pwysig, mae canolfan wedi'i lansio ar wefan Ffederasiwn y Busnesau Bach i annog busnesau i ystyried pa gymorth sydd ei angen.

Y Grŵp Trawsbleidiol ar Iechyd Meddwl Cross-party Group on Mental Health

David Lee (Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru) A oes unrhyw ystadegau neu oleuni o ran niwroamrywiaeth? Mae angen cydadnabod iechyd meddwl a niwroamrywiaeth.

Linsey Imms (TUC Cymru) gwnaed rhywfaint o waith ar niwroamrywiaeth yn y gweithle, sy'n adlewyrchu profiadau David (<https://www.tuc.org.uk/autism-awareness-workplace>). Mae argymhellion yn yr adroddiad ar gyfer sut y gellir cefnogi pobl yn well.

Emma Gooding (Samariaid Cymru) Sut allwn ni fel sector weithio i fynd i'r afael ag iechyd meddwl yn y gweithle drwy lens anghydraddoldeb? Mae'r rhai sydd yn y proffesiynau sydd â'r lefel isaf o sgiliau, sy'n wynebu colli swyddi ac sydd mewn cyflogaeth ansicr mewn mwy o berygl. Sut mae cyrraedd y rheiny ac olrhain beth sy'n digwydd?

Peter Williams (Fforwm Iechyd Meddwl a Lles Cymru) Maes lle mae gan ofalwyr gyfyng gyngor, os ydynt mewn gwaith, mae angen yr hyblygrwydd arnynt i ofalu am aelod o'u teulu. Rolau ychwanegol yn ystod y pandemig gan eu bod wedi gorfod rhoi'r gorau i'w gwaith gan nad oes gofal proffesiynol ar gael. Pa gymorth a chefnogaeth fyddai ar gael?

Tynnodd Linsey Imms (TUC Cymru) sylw at y ffaith bod ganddynt arolwg o brofiadau gofalwyr o gydbwysu cyfrifoldebau gwaith a gofal (<https://www.tuc.org.uk/news/working-and-looking-after-others-new-survey>)

6. Y camau nesaf

Awgrymodd KS ei fod yn ysgrifennu at Vaughan Gething ar ran y grŵp, yn crynhoi natur y drafodaeth.

Hefyd mae'n werth meddwl am yr hyn yr ydym am ei gael o'r strategaeth iechyd meddwl yn y dyfodol ac o bosib gwahodd gwahanol Weinidogion i fod yn bresennol er mwyn gweld lle mae gorgyffwrdd rhwng eu gwaith ag iechyd meddwl. Er enghraifft, gellid gwahodd Hanah Blythyn AS i siarad am y Bil Partneriaeth Gymdeithasol ac efallai Jane Hutt o ran cyfiawnder cymdeithasol.